



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

Rhif y Cylchlythyr:		Dyddiad cyhoeddi:	DD / MM / BBBB
Statws:			
Teitl:			
Cyhoeddwyd gan:			
Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:		
Crynodeb:			
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:			
	Llinell Uniongyrchol:		
	E-bost:		
	Gwefan:		

Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc (Diwygio Rhif 3) a Rheoliadau Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2730 (Cy. 264))

CYFLWYNIAD

1. Fe'm cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru i dynnu'ch sylw at Reoliadau Rheoliadau Adeiladu etc (Diwygio Rhif 3) a Rheoliadau Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2730 (Cy. 264)) ("y rheoliadau diwygio" a wnaed ar 22 Hydref 2013 ac a fydd yn dod i rym ar gyfer cartrefi gofal ac ystafelloedd penodol at ddibenion preswyl o 30 Ebrill 2014, ac ar gyfer tai annedd a fflatiau o 1 Ionawr 2016. .
2. Mae Gweinidogion Cymru wedi dod ag Adran 1 o Fesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 i'w lawn rym o dan bwerau sydd wedi'u cynnwys yn adran 9(3). Mae adran 7(1) o'r Mesur yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud y cyfryw ddarpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth atodol a darpariaeth arall ag y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol mewn cysylltiad â'r Mesur hwn neu i roi effaith lawn iddo.
3. Mae Rheoliadau Adeiladu 2010 yn cael eu diwygio o dan bwerau sydd wedi'u cynnwys yn adran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Adeiladu 1984.
4. Yn unol ag adran 14 (7) o Ddeddf Adeiladu 1984, cafodd y rheoliadau diwygio eu gwneud ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu ac â'r cyfryw gyrff eraill sydd, ym marn y Gweinidogion, yn cynrychioli'r buddiannau o dan sylw; roedd hynny'n cynnwys ymgynghoriad agored.
6. Diben y cylchlythyr hwn yw:
 - tynnu sylw at y diwygiadau hynny ac egluro'r newidiadau a wnaed i Reoliadau Adeiladu 2010 (O.S. 2010/2214) a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 (O.S. 2010/2215);
 - tynnu sylw at y diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy B - Diogelwch Tân - Cyfrol 2 (Adeiladau ac eithrio tai annedd)

CYMHWYSO'R RHEOLIADAU

7. Nid yw'r newidiadau a wnaed gan y Rheoliadau Diwygio yn gymwys i Loegr nac i adeiladau ynni a eithrir yng Nghymru.

DIWYGIADAU I'R RHEOLIADAU ADEILADU AC I REOLIADAU AROLYGWYR CYMERADWY

8. Mae tabl yn Atodiad A i'r Cylchlythyr hwn sy'n nodi'r holl newidiadau a wnaed i Reoliadau Adeiladu 2010 (2010/2214) gan O.S. 2013/2730 (Cy. 264).
9. Yn Atodiad B i'r Cylchlythyr hwn, nodir ar ffurf tabl yr holl newidiadau a wnaed i Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 gan O.S. 2013/2730 (Cy. 264).

DIWYGIADAU I'R DOGFENNAU CYMERADWY

10. Bydd y fersiwn ddiwygiedig o Ddogfen Gymeradwy B - Cyfrol 2 (Adeiladau ac eithrio tai annedd) yn dod i rym ar 30 Ebrill 2014. Mae'r gyfrol ddiwygiedig yn rhoi arweiniad mewn perthynas â gwaith adeiladu ar adeiladau yr ymdrinnir â nhw yn rheoliadau newydd 37A (1) (a) a 37A (1) (b). Nid yw'r diwygiadau i gyfrol 2 yn cynnwys diwygiadau i Adran 3 (Ffyrdd o ddianc o fflatiau), a hynny am nad yw'r gofyniad i osod systemau llethu tân mewn fflatiau yn dod i rym tan 1 Ionawr 2016.
11. Bydd diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy B - Cyfrol 1 (Tai annedd) a diwygiadau pellach i Ddogfen Gymeradwy B - Cyfrol 2 (Adeiladau ac eithrio tai annedd); a fydd yn cynnwys newidiadau i Adran 3 (Ffyrdd o ddianc o fflatiau), yn cael eu cyhoeddi yn 2015. Bydd y diwygiadau i gyfrol 1 ac i'r adran ar "Fflatiau" yng nghyfrol 2 yn rhoi arweiniad ar waith adeiladu yr ymdrinnir ag ef yn rheoliad newydd 37A (1) (c) a fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2016.
12. Pan gyhoeddir y diwygiadau i'r Dogfennau Cymeradwy yn 2015, caiff cylchlythyr arall yn esbonio'r newidiadau ei gyhoeddi ar yr un pryd.
13. Mae Atodiad C i'r cylchlythyr hwn yn rhoi arweiniad ar gymeradwyo'r diwygiad i Ddogfen Gymeradwy B - Cyfrol 2.

RHEOLIADAU A DARPARIAETHAU TROSIANNOL

14. I weld y rheoliadau a'r darpariaethau trosiannol, ewch i:
<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/2730/contents/made/welsh>

YMHOLIADAU

15. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Cylchlythyr hwn, dylech eu cyfeirio at:

Colin Blick, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car,
Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

Ffôn: 03000 628144.

E-bost Colin.Blick@wales.gsi.gov.uk.

Yn gywir

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'François Samuel'.

François Samuel
Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

Atodiad A

Mae'r tabl a ganlyn yn rhestru'r holl newidiadau a wnaed i Reoliadau Adeiladu 2010 (2010/2214) gan O.S. 2013/2730 (Cy. 264)

O.S. 2010/2214 Rhif y Rheoliad	O.S 2013/2730 (Cy. 264) Rhif y Rheoliad	Y newid a wnaed
-	1	Enwi, cymhwyso a chychwyn y rheoliadau
-	2	Dehongli'r rheoliadau.
-	3	Nodi'r gofynion rhagnodedig at ddibenion y Mesur.
-	4 (1)	Nodi'r diwygiadau i'r Prif Reoliadau.
Rhan 7A	4 (2)	Ar ôl Rhan 7, mewnosod "Rhan 7A – Systemau llethu tân awtomatig".
37A	4 (2)	Mae 37A yn cyflwyno darpariaeth mewn perthynas â systemau llethu tân awtomatig.
37B	4 (2)	Mae rheoliad 37B yn cyflwyno'r gofynion o ran systemau llethu tân awtomatig.

Atodiad B

Mae'r tabl a ganlyn yn rhestru'r holl newidiadau a wnaed i Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc. 2010 (2010/2215) gan O.S. 2013/ 2730 (Cy. 264):

O.S. 2010/2215 Rhif y Rheoliad	O.S 2013/2730 (Cy. 264) Rhif y Rheoliad	Y newid a wnaed
8 (1)(a)	5	Yn is-baragraff (a) ar ôl "36 (water efficiency for new dwellings)," mewnosod "37A (provision of automatic fire suppression systems),".

Atodiad C

Deddf Adeiladu 1984

HYSBYSIAD CYMERADWYO MEWN PERTHYNAS Â DIWYGIO DOGFEN ER MWYN RHOI ARWEINIAD YMARFEROL MEWN PERTHYNAS Â GOFYNION RHEOLIADAU ADEILADU 2010

Mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn hysbysu o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984 eu bod, wrth arfer y cyfryw bwerau o dan adran 6, wedi cymeradwyo'r diwygiadau a restrir isod i'r Ddogfen Gymeradwy er mwyn rhoi arweiniad ymarferol mewn perthynas â gofynion penodedig Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) yng **Nghymru** yn unig. Mae'r gymeradwyaeth honno'n dod yn weithredol fel y rhestrir yn y tabl isod ac eithrio mewn cysylltiad â gwaith a fydd wedi dechrau cyn y dyddiad hwnnw, neu mewn cysylltiad â gwaith, er na fydd wedi dechrau, y bydd corff rheoli adeiladu wedi cael gwybod amdano cyn y dyddiad hwnnw.

Dogfen Gymeradwy	Y gofynion yn y Rheoliadau Adeiladu y cymeradwyir y ddogfen mewn cysylltiad â nhw	Y dyddiad y bydd y diwygiad yn dod yn weithredol
Diwygiadau i Ddogfen Gymeradwy B - Diogelwch Tân - Cyfrol 2 - Adeiladau ac eithrio tai annedd (2006)	Rhan 7A ac Atodlen 1, Rhan B	30 Ebrill 2014